

Etholiadau lleol yng
Nghymru a Lloegr

Canllaw i ymgeiswyr ac asiantiaid

Rhan 1 o 6 – A ellwch sefyll
etholiad?

Hydref 2016

Mae'r ddogfen hon yn gymwys i etholiadau dosbarth, bwrdeistref, sir, bwrdeistref sirol ac awdurdodau unedol. Nid yw'n gymwys i etholiadau cynghorau plwyf a chymuned, etholiadau maerol nac etholiadau i Awdurdod Llundain Fwyaf. Gellir gweld ein canllawiau a'n hadnoddau ar gyfer etholiadau eraill yn y DU o'n gwefan yn:

www.electoralcommission.org.uk/cymru/guidance/resources-for-those-we-regulate/candidates-and-agents

Cynnwys

Gwybodaeth hanfodol	2
Amodau cymhwyso ar gyfer sefyll etholiad	3
Anghymwysiadau	3
A allaf sefyll etholiad mewn mwy nag un ward o fewn yr un awdurdod lleol?	5
Gwybodaeth atodol	7
Yr amodau cymhwyso	7
a. Bod yn etholwr llywodraeth leol cofrestredig.....	7
b. Meddiannu unrhyw dir neu safle arall yn yr ardal awdurdod lleol fel perchennog neu denant	7
c. Mae eich prif weithle neu'ch unig weithle yn yr ardal awdurdod lleol.....	9
ch. Byw yn yr ardal awdurdod lleol	9
Rhagor o wybodaeth am rai anghymwysiadau.....	10
Gweithio i'r awdurdod lleol	10
Swyddi dan gyfyngiadau gwleidyddol	11
Cyfyngiadau methdaliad neu orchymyn interim	12

2

Gwybodaeth hanfodol

Mae'r adran hon o'r ddogfen yn cynnwys ein canllawiau ar b'un a allwch sefyll etholiad ar gyfer etholiad dosbarth, bwrdeistref, sirol, bwrdeistref sirol neu awdurdod unedol yng Nghymru a Lloegr. Darperir gwybodaeth atodol ar gefn y ddogfen hon, sydd ond yn berthnasol efallai i rai ymgeiswyr. Gallwch weld y canllawiau atodol hyn drwy glicio ar y dolenni yn y ddogfen hon neu drwy glicio ar bennawd y bennod ar y dudalen gynnwys.

Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â'ch tîm Comisiwn Lleol os oes gennych unrhyw gwestiynau.

Mae ein manylion cyswllt yn y [ddogfen trosolwg](#).

Yn y ddogfen hon, byddwn yn defnyddio 'chi' i gyfeirio at yr ymgeisydd. Rydym hefyd yn defnyddio 'rhaid' wrth gyfeirio at ofyniad penodol. Rydym yn defnyddio 'dylai' ar gyfer eitemau sydd yn arfer da gofynnol yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol neu reoleiddiol.

Mae'r dyddiadau cau y sonnir amdanynt yn y ddogfen hon yn rhai cyffredinol ac rydym wedi cyhoeddi [amserlen gyffredinol ar gyfer etholiadau ar ein gwefan](#). Os bydd isetholiad wedi cael ei alw, byddwch yn gallu cael copi o'r amserlen benodol ar gyfer yr etholiad hwnnw gan y Swyddog Canlyniadau.

Os ydych yn sefyll fel ymgeisydd yn yr etholiadau lleol ar 4 Mai 2017, rydym wedi cyhoeddi [amserlen etholiadau](#) yn cynnwys y dyddiadau cau penodol ar gyfer yr etholiadau hynny y gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan.

Amodau cymhwyso ar gyfer sefyll etholiad

1.1 Er mwyn gallu sefyll fel ymgeisydd mewn etholiad llywodraeth leol yng Nghymru a Lloegr rhaid i chi:

- fod yn 18 mlwydd oed o leiaf
- bod yn ddinesydd Prydeinig, yn [ddinesydd cymwys o'r Gymanwlad](#) neu'n ddinesydd yn [un o aelod-wladwriaethau yr Undeb Ewropeaidd](#),
- bodloni o leiaf un o'r pedwar amod cymhwyso canlynol:
 - a. Rydych wedi'ch cofrestru, a byddwch yn parhau i gael eich cofrestru fel etholwr llywodraeth leol ar gyfer yr ardal awdurdod lleol yr ydych yn dymuno sefyll fel ymgeisydd ynddi o ddiwrnod eich enwebiad ymlaen. Gweler paragraff **1.9** am ragor o wybodaeth.
 - b. Rydych wedi meddiannu unrhyw dir neu safle arall yn yr ardal awdurdod lleol fel perchennog neu denant yn ystod y 12 mis cyn y diwrnod y cewch eich enwebu a diwrnod yr etholiad. I gael rhagor o wybodaeth, gweler paragraff 1.10.
 - c. Mae eich prif weithle neu'ch unig weithle yn ystod y 12 mis diwethaf cyn y diwrnod y cewch eich enwebu a diwrnod yr etholiad wedi bod yn yr ardal awdurdod lleol. Rhoddir rhagor o wybodaeth ym mharagraff **1.17**.
 - d. Rydych wedi byw yn yr ardal awdurdod lleol yn ystod y 12 mis cyfan cyn y diwrnod y cewch eich enwebu a diwrnod yr etholiad. Gweler paragraff **1.188** am ragor o fanylion.

Dinesydd **cymwys** o'r Gymanwlad yw dinesydd o'r Gymanwlad:

- nad oes angen caniatâd arno i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu aros yno, neu
- sydd â chaniatâd penagored i aros yn y Deyrnas Unedig

Anghymwysiadau

1.2 Ar wahân i fodloni'r amodau cymhwyso ar gyfer sefyll etholiad, rhaid i chi sicrhau hefyd nad ydych wedi eich anghymhwyso.

4

Mae'r ystod lawn o anghymwysiadau yn gymhleth ac os oes unrhyw amheuaeth gennych ynghylch p'un a ydych wedi eich anghymhwyso, rhaid i chi wneud popeth o fewn eich gallu i gadarnhau nad ydych wedi eich anghymhwyso cyn cyflwyno eich papurau enwebu.

Rhaid i chi sicrhau nad ydych wedi eich anghymhwyso oherwydd gofynnir i chi lofnodi un o'r papurau enwebu sy'n ofynnol er mwyn cadarnhau nad ydych wedi eich anghymhwyso.

Mae'n drosedd gwneud datganiad ffug ar eich papurau enwebu o'ch cymhwyster ar gyfer cael eich ethol, felly os oes unrhyw amheuaeth gennych, dylech gysylltu â'ch cyflogwr, ymgynghori â'r ddeddfwrfa neu, os oes angen, ceisio eich cyngor cyfreithiol annibynnol eich hun.

Ni fydd y Swyddog Canlyniadau yn gallu cadarnhau a ydych wedi eich anghymhwyso ai peidio.

1.3 Mae rhai pobl wedi'u hanghymhwyso rhag cael eu hethol i awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr. Ni allwch fod yn ymgeisydd os ydych, ar adeg eich enwebu ac ar y diwrnod pleidleisio:

- a. **wedi eich cyflogi gan yr awdurdod lleol** neu'n dal swydd gyflogedig o dan yr awdurdod (gan gynnwys cyd-fyrddau neu bwyllgorau). Noder y gallwch fod 'yn gyflogedig gan yr awdurdod lleol' os ydych, er enghraifft, yn gweithio mewn rhai ysgolion, i'r gwasanaeth tân, yr heddlu neu'r gwasanaeth iechyd. Nid yw'r rhestr hon yn un gynhwysfawr. I gael rhagor o wybodaeth, gweler paragraff **1.20**.
- b. yn dal **swydd dan gyfyngiadau gwleidyddol**. I gael rhagor o wybodaeth, gweler paragraff **1.27**.
- c. yn destun **gorchymyn cyfyngiadau methdaliad neu orchymyn interim**. I gael rhagor o wybodaeth, gweler paragraff **1.30**.
- d. eich bod yn **faer ar gyfer awdurdod lleol cyfun** y mae'r awdurdod lleol yn rhan ohonno. Yr unig

eithriad i hyn yw lle bo etholiad maerol ardal leol gyfun ac ethoi cynghorwyr yn cael eu cynnal ar yr un diwrnod. Yn yr achos hwnnw gallwch sefyll yn y ddau etholiad. Fodd bynnag os cewch eich ethol i'r ddwy swydd, bydd swydd y cynghorydd yn dod yn wag yn syth.

- e. wedi cael eich **dedfrydu i gyfnod o dri mis neu fwy yn y carchar** (gan gynnwys dedfryd wedi'i hatal) heb yr opsiwn o ddirwy, yn ystod y pum mlynedd cyn y diwrnod pleidleisio.
- f. wedi cael eich **anghymhwyso o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983** (sy'n cwmpasu arferion etholiadol llwgr neu anghyfreithlon a throsteddau yn ymwneud â rhoddion). Mae anghymhwyso rhywun am arfer anghyfreithlon yn dechrau o'r dyddiad y cafwyd rhywun yn euog gan lys etholiad neu o'r dyddiad y cafodd ei gollfarnu ac mae'n para am dair blynedd. Mae anghymhwyso rhywun am arfer llwgr yn dechrau o'r dyddiad y cafwyd rhywun yn euog gan lys etholiad neu o'r dyddiad y cafodd ei gollfarnu ac mae'n para am bum mlynedd.

1.4 Gall rhywun gael ei anghymhwyso rhag sefyll etholiad os yw wedi cael ei anghymhwyso rhag sefyll etholiad ar gyfer awdurdod lleol yn dilyn penderfyniad y Tribiwnlys Haen Gyntaf (sef Panel Dyfarnu Lloegr gynt), neu Banel Dyfarnu Cymru.

A allaf sefyll etholiad mewn mwy nag un ward o fewn yr un awdurdod lleol?

1.5 Er y gallwch gyflwyno papurau enwebu ar gyfer mwy nag un ward, ni allwch sefyll etholiad mewn mwy nag un ward o fewn yr un awdurdod lleol ar ôl y dyddiad cau ar gyfer tynnu eich enw yn ôl.

1.6 Os bydd y Swyddog Canlyniadau yn derbyn eich papurau enwebu a'ch bod yn cael eich enwebu'n ddilys mewn mwy nag un ward o fewn yr un awdurdod lleol, rhaid i chi dynnu eich

6

enw yn ôl o bob ward ond un erbyn 4pm ar y 19eg diwrnod gwaith cyn yr etholiad. Os na wnewch hyn, yna tybir eich bod wedi tynnu eich enw yn ôl o bob ward.

1.7 Ceir rhagor o fanylion naill ai yn [Rhan 2a: Sefyll fel ymgeisydd annibynnol](#) neu [Rhan 2b: Sefyll fel ymgeisydd plaid](#).

Gwybodaeth atodol

Yr amodau cymhwyso

1.8 Wrth gwblhau eich cydsyniad i'ch enwebu bydd gofyn i chi nodi pa gymwysterau sy'n berthnasol i chi. Dylech nodi'r holl gymwysterau sy'n berthnasol i chi ar y ffurflen.

a. Bod yn etholwr llywodraeth leol cofrestredig

1.9 Er mwyn gallu defnyddio'r amod cymhwyso hwn, rhaid i'ch enw ymddangos ar gofrestr yr etholwyr llywodraeth leol ar gyfer yr ardal awdurdod lleol yr hoffech sefyll ynddi ar adeg eich enwebiad a thrwy gydol eich cyfnod yn y swydd os cewch eich ethol. Yn wahanol i amodau cymhwyso eraill nad oes ond rhaid i chi eu bodloni ar ddiwrnod eich enwebiad a'r diwrnod pleidleisio, mae hwn yn amod cymhwyso parhaus. Felly argymhellwn, os ydych yn bodloni unrhyw rai o'r amodau cymhwyso eraill hefyd, y gallech nodi hyn ar eich [caniatâd i enwebu](#), sy'n un o'r papurau enwebu gofynnol.

b. Meddiannu unrhyw dir neu safle arall yn yr ardal awdurdod lleol fel perchennog neu denant

1.10 Er mwyn gallu defnyddio'r amod cymhwyso hwn, rhaid eich bod wedi meddiannu unrhyw dir neu safle arall yn yr ardal awdurdod lleol fel perchennog neu denant yn ystod y 12 mis cyn y diwrnod y cewch eich enwebu a chyn y diwrnod y pleidleisio.

1.11 Rhaid i chi feddiannu 'tir neu safle arall' er mwyn bodloni'r amod cymhwyso hwn. Gall cynnwys y geiriau 'safle arall' weithiau gael ei ystyried yn rhywbeth heblaw am dir (h.y. rhyw

fath o adeiladwaith). Gan fod 'tir' a 'safle arall' yn ddewisiadau amgen mae'n bosibl, mewn egwyddor, i rywun fodloni'r amod cymhwyso hwn drwy feddiannu tir yn unig. Gellir dadlau bod rhai adeiladweithiau y tu allan i'r term 'safle' (e.e. pabell, carafán, cwch preswyl neu gartref symudol). Fodd bynnag, dim ond cadarnhau ei fod yn meddiannu'r tir y mae, er enghraifft, ei babell arno y mae'n rhaid i rywun ei wneud i feddiannu adeiladwaith o'r fath.

1.12 Os yw'r tir neu'r safle yn croesi ffin awdurdod lleol, mae'r tir/safle yn yr ardal honno o ran y ddau awdurdod lleol.

1.13 Rhaid i chi hefyd feddiannu'r tir neu'r safle arall fel 'perchennog' neu 'denant'. Gellir cadarnhau perchnogaeth drwy ddangos hawl i'r tir neu'r safle dan sylw. Cadarnheir tenantiaeth drwy ddangos bod y tir ar brydles. Mewn nifer o amgylchiadau, bydd prydles yn goroesi hyd yn oed os yw wedi dod i ben a bod y partïon wedi methu â llofnodi prydles newydd, a bydd y denantiaeth yn goroesi drwy gytundeb dealedig rhwng y partïon. Felly, gall amgylchiadau godi lle y gall fod angen cadarnhau tenantiaeth rhywun o dir neu safle drwy gyflwyno tystiolaeth heblaw am brydles gyfredol.

1.14 Rhaid eich bod hefyd wedi 'meddiannu'r' tir neu'r safle. Felly, yn ogystal â chadarnhau perchnogaeth gyfreithiol neu denantiaeth gyfreithiol, rhaid i chi gadarnhau eich bod wedi meddiannu'r tir neu'r safle mewn gwirionedd. Mae hwn yn gwestiwn ffeithiol ym mhob achos. Mae'r dehongliad o'r term 'meddiannu' mewn cyd-destunau cyfreithiol eraill yn awgrymu nad oes angen i rywun breswylion bersonol ar y tir neu'r safle (a all gael ei gwmpasu, beth bynnag, gan yr amod cymhwyso 'yn byw yn yr awdurdod lleol').

1.15 Fodd bynnag, mae'n golygu bod angen i rywbeth gael ei wneud mewn gwirionedd ar y tir neu'r safle - ni ellir disgrifio tŷ gwag heb ei gloi er enghraifft fel rhywle sydd wedi ei 'feddiannu'. Mae hefyd yn golygu bod angen rhywfaint o reolaeth er mwyn atal eraill rhag ymyrryd â'r tir neu'r safle. Os ydych wedi is-osod eich tir neu safle cyfan i rywun arall, bydd hyn yn awgrymu nad ydych yn ei 'feddiannu' ar eich pen eich hun.

1.16 Yn olaf, rhaid eich bod wedi meddiannu'r tir neu'r safle yn ystod y deuddeg mis cyfan cyn y diwrnod y cewch eich enwebu a'r diwrnod pleidleisio. Dylid gweithio allan a fydd absenoldeb yn eich atal rhag honni eich bod wedi meddiannu'r tir neu'r safle yn ystod y flwyddyn flaenorol drwy ystyried pob ffactor arall: er enghraifft, a ydych wedi caniatáu i eraill feddiannu'r tir neu'r safle yn eich absenoldeb, a'r rheswm dros eich absenoldeb.

c. Mae eich prif weithle neu'ch unig weithle yn yr ardal awdurdod lleol

1.17 Er mwyn gallu defnyddio'r amod cymhwysu hwn, rhaid bod eich prif weithle neu'ch unig weithle wedi bod yn yr ardal awdurdod lleol yn ystod y 12 mis cyn y cewch eich enwebu a chyn y diwrnod pleidleisio ei hun. Nid oes rhaid i chi fod mewn swydd â tâl er mwyn bod yn gymwys, cyhyd â'ch bod yn bodloni'r gofyniad bod yn rhaid i'ch prif weithle neu'ch unig weithle fod yn yr ardal awdurdod lleol. Byddai cynghorwyr yn gallu defnyddio'r amod cymhwysu hwn os mai eu prif swydd neu eu hunig swydd yw bod yn gynghorydd, ar yr amod bod eu lle gwaith yn yr awdurdod lleol.

ch. Byw yn yr ardal awdurdod lleol

1.18 Er mwyn gallu defnyddio'r amod cymhwysu hwn, nid yw'n golygu eich bod wedi gorfod byw yn yr un cyfeiriad am 12 mis cyfan cyn y diwrnod y cewch eich enwebu, ond eich bod wedi byw yn yr un ardal awdurdod lleol yn ystod y 12 mis cyfan hynny.

1.19 Os ydych, dros y 12 mis diwethaf, wedi byw mewn mwy nag un cyfeiriad yn yr ardal awdurdod lleol, dylech restru ar eich [caniatâd i enwebu](#), sy'n un o'r papurau enwebu gofynnol, yr holl gyfeiriadau yr ydych wedi byw ynddynt yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae'r amod cymhwysu hwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i chi fyw yn yr ardal awdurdod lleol o'r dyddiad enwebu tan y diwrnod pleidleisio.

10

Rhagor o wybodaeth am rai anghymwysiaidau

Gweithio i'r awdurdod lleol

1.20 Cewch eich anghymhwysu rhag sefyll fel ymgeisydd mewn etholiadau i awdurdod lleol penodol os ydych yn swyddog cyflogedig neu'n gyflogai yn yr awdurdod lleol hwnnw. Byddai hyn yn wir:

- os yw eich penodiad wedi cael ei wneud
- os gallai gael ei wneud
- os yw wedi cael ei gadarnhau gan yr awdurdod lleol ei hun
- os yw wedi cael ei gadarnhau gan unrhyw un o bwyllgorau neu is-bwyllgorau'r awdurdod lleol
- os yw wedi cael ei gadarnhau gan unrhyw gyd-bwyllgor neu awdurdod Parc Cenedlaethol lle caiff yr awdurdod lleol ei gynrychioli gan rywun sy'n dal swydd neu gyflogaeth o'r fath

1.21 Fodd bynnag, nid yw anghymhwysiad ar sail bod yn swyddog cyflogedig neu gyflogai yn gymwys i swydd cadeirydd, is-gadeirydd neu ddirprwy gadeirydd yr awdurdod lleol. Bydd gan rai awdurdodau drefniadau gweithredol a fydd yn cynnwys gweithrediaeth arweinydd a chabinet. Yn yr achosion hynny, ni fydd yr anghymhwysiad yn gymwys i swydd arweinydd gweithrediaeth nac aelod o'r weithrediaeth.

1.22 Fel arfer mae gan awdurdodau lleol bwyllgorau ac is-bwyllgorau. Caiff swyddogion cyflogedig awdurdod lleol a gyflogir o dan gyfarwyddyd pwyllgorau neu is-bwyllgorau o'r fath eu hanghymhwysu rhag sefyll i'r awdurdod hwnnw. Hefyd, lle mae gan bwyllgor neu is-bwyllgor o'r fath aelod, neu aelodau, a benodir ar enwebiad awdurdod lleol arall, bydd yr anghymhwysiad hefyd yn gymwys i gael eich ethol i'r awdurdod lleol arall.

1.23 Os ydych yn swyddog cyflogedig awdurdod lleol a gyflogir o dan gyfarwyddyd cyd-fwrdd, cyd-awdurdod neu awdurdod cyfunol, cyd-awdurdod gwastraff, bwrdd ffyniant economaidd

neu gyd-bwyllgor, cewch eich anghymhwysu rhag cael eich ethol fel aelod o'r holl awdurdodau a gynrychiolir ar y corff hwnnw.

1.24 Gall cyd-fyrddau, cydbwyllgorau ac ati gynnwys sefydliadau amrywiol, fel gwasanaethau tân ac awdurdodau addysg. Felly, fel rheol, os ydych yn gweithio yn y sector cyhoeddus lleol, dylech ofyn i adran AD eich cyflogwr i'ch helpu i gadarnhau a fyddai'r anghymhwysiad yn gymwys i chi. Weithiau gall cydberthnasau cyflogaeth fod yn gymhleth ac os felly, rydym yn argymhell eich bod yn ceisio eich cyngor cyfreithiol eich hun.

1.25 Os ydych yn athro (neu'n aelod o staff nad yw'n aelod o'r staff addysgu) mewn ysgol neu sefydliad addysgol arall a gynhelir neu a gynorthwyir gan **gyngor lleol**, efallai y gallwch sefyll fel ymgeisydd mewn etholiadau i'r **cyngor dosbarth** ar yr amod eich bod yn bodloni'r amodau cymhwysu ac nad ydych wedi'ch anghymhwysu fel arall.

1.26 Mae'r anghymhwysiad gweithio i'r awdurdod lleol yn gymwys ar y diwrnod y cewch eich enwebu ac ar y diwrnod pleidleisio. Os oeddech yn gyflogedig gan yr awdurdod lleol, byddai'n rhaid eich bod wedi ymddiswyddo a bod unrhyw gyfnod o rybudd wedi mynd heibio cyn y dyddiad enwebu er mwyn osgoi cael contract cyflogaeth â'r awdurdod lleol ar yr adeg honno.

Swyddi dan gyfyngiadau gwleidyddol

1.27 Os ydych yn gyflogedig gan awdurdod lleol unrhyw le ym Mhrydain Fawr, rhaid i chi gadarnhau nad ydych yn dal swydd dan gyfyngiadau gwleidyddol. Os ydych yn dal swydd dan gyfyngiadau gwleidyddol, cewch eich anghymhwysu rhag sefyll etholiad i unrhyw gyngor sir, cyngor dosbarth neu gyngor bwrdeistref yn Llundain yn Lloegr a chyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru. Fodd bynnag, gallwch sefyll etholiad ar gyfer cynghorau plwyf neu gymuned (ar yr amod nad ydych hefyd yn gyflogedig gan y cyngor plwyf neu gymuned, eich bod yn bodloni'r holl amodau cymhwysu ac nad ydych fel arall wedi'ch anghymhwysu).

1.28 Y swyddi dan gyfyngiadau gwleidyddol yw:

12

- y Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig
- prif swyddogion statudol (y prif swyddog cyllid, y prif swyddog addysg, y prif swyddog ar gyfer rhai brigadau tân neu'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol)
- prif swyddogion anstatudol (gan gynnwys rhywun y mae'n ofynnol iddo, o ran pob un o ddyletswyddau ei swydd neu'r rhan fwyaf ohonynt, fod yn atebol neu'n uniongyrchol atebol i'r awdurdod lleol neu unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor yn yr awdurdod neu bennaeth gwasanaeth cyflogedig yr awdurdod)
- dirprwy brif swyddogion (rhywun y mae'n ofynnol iddo, o ran pob un o ddyletswyddau ei swydd neu'r rhan fwyaf ohonynt, fod yn atebol neu'n uniongyrchol atebol i un neu fwy o'r prif swyddogion)
- y swyddog monitro
- swyddogion sy'n ymarfer pwerau dirprwyedig
- cynorthwyr i grwpiau gwleidyddol
- swydd sensitif sy'n bodloni un neu ddau o'r meini prawf canlynol sy'n gysylltiedig â dyletswyddau:
 - I. rhoi cyngor yn rheolaidd i'r awdurdod (gan gynnwys pwyllgorau, is-bwyllgorau a chydbwyllgorau y cynrychiolir yr awdurdod arnynt)
 - II. siarad ar ran yr awdurdod yn rheolaidd â newyddiadurwyr neu ddarlledwyr

1.29 Dylech gadarnhau gydag adran AD eich cyflogwr os nad ydych yn siŵr a ydych yn dal swydd dan gyfyngiadau gwleidyddol.

Cyfyngiadau methdaliad neu orchymyn interim

1.30 Nid yw methdaliad ynddo'i hun yn anghymhwysiad. Os ydych wedi'ch dyfarnu yn fethdalwr gan lys yng Nghymru, Lloegr neu Ogledd Iwerddon, ni chewch eich anghymhwyso ar y sail honno. Fodd bynnag fe gewch eich anghymhwyso os ydych yn destun un o'r canlynol: ar hyn o bryd:

- gorchymyn cyfyngiad methdaliad interim
- gorchymyn cyfyngiadau methdaliad
- gorchymyn cyfyngiad gollwng dyled interim
- gorchymyn cyfyngiad gollwng dyled a wnaed gan lys yng Nghymru neu Loegr. Mae'r gyfraith

yn y maes hwn yn gymhleth, ac os gwnaed y gorchymyn yng Ngogledd Iwerddon, dylech gymryd eich cyngor cyfreithiol eich hun.